# Awdurdod Parc Cenedlaethol (Cyfarfod Cyffredin)

## 21 Mehefin 2023

Yn bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Alderman, Cynghorydd Dr SL Hancock, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd B Price, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

Yn bresennol (o bell)
Dr M Havard, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell
10.30am – 12.10pm; 12.20pm – 1.10pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R Jordan.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd Dr R Plummer bod ganddi fuddiant personol cyffredinol o ran ei Haelodaeth o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Ymddiriedolwr Plantlife. Datganodd Dr M Havard a'r Cynghorydd M Wiggins bod ganddynt fuddiant personol fel Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro y cyfeirir ati mewn sawl adroddiad. Datganodd y Cynghorydd B Price bod ganddo fuddiant personol yn Adroddiad 22/23, Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Aelodau ar ddarparu tocynnau tymor a'r tâl a godir mewn meysydd parcio yn y dyfodol.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2023 ar gynnig y Cynghorydd D Clements, ac a eiliwyd gan Mrs J James.

**4. Log Gweithredu a Materion sy'n Codi**
Nodwyd cynnwys y Log Gweithredu. Hefyd, o ran cam gweithredu 874 ar brosiect y Gronfa Datblygu Cynaliadwy - Argraffu Cynaliadwy, hysbyswyd yr Aelodau bod materion megis Covid, cynllunio a'r adeiladwr wedi bod yn rhwystr i'r gwaith ar y prosiect. Fodd bynnag roedd camau ymlaen wedi'u cymryd yn ddiweddar a bod diweddariad rheolaidd yn cael ei gyflwyno i'r

Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy. Y gobaith oedd cwblhau'r prosiect erbyn diwedd y flwyddyn.

Nodwyd bod y ddolen gyswllt â'r hyfforddiant ar Seiberddiogelwch (cam gweithredu 838) wedi'i hanfon at yr Aelodau. Fodd bynnag, awgrymodd Dr Plummer ei bod yn profi'r cyswllt yn gyntaf er mwyn sicrhau y gellir cyrchu'r wybodaeth yn hwylus cyn i bob Aelod ymgymryd â'r hyfforddiant.

Yn olaf, o ran Strategaeth yr Iaith Gymraeg (cam gweithredu 878) cadarnhawyd y byddai cyfarfod o'r Gweithgor yn cael ei gynnal cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod ers y cyfarfod diwethaf:

- Wedi mynychu Seminar Aelodau Cymru oedd ar y thema Dŵr. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Parciau Cenedlaethol Cymru.
- Wedi croesawu dirprwyaeth o Iwerddon fel rhan o'r prosiect Cysylltiadau Hynafol.
- Wedi mynychu Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y DU.

Yn anffodus nid oedd wedi gallu mynd i'r cyfarfod o Gyd-Bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru, ond bod y Prif Weithredwr wedi mynychu'r cyfarfod hwn.

Gofynnodd un Aelod am y wybodaeth ddiweddaraf am greu 4ydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru, ac atebodd y Prif Weithredwr er bod ymrwymiad gwleidyddol i wneud hyn, bod y broses yn mynd rhagddi ond mai'r camau cyntaf yw'r rhain.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried/ er gwybodaeth.

( i ) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023;
(ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023;
(iii) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023;
(iv) Pwyllgorau Ieuenctid a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2023, 28 Mawrth 2023 ac ar 9 Mai 2023.

O ran y Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr, gofynnodd un Aelod a ddylai adroddiad y cyfarfod hwn fod yn adroddiad cyhoeddus.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Adroddiad Archwilio Cymru ar Arallgyfeirio Incwm**

Atgoffwyd yr Aelodau, fel rhan o'u rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2022/23, bod Archwilio Cymru wedi gwneud peth gwaith oedd yn ceisio deall a oedd yr Awdurdod wedi sefydlu systemau effeithiol i ystyried, a chymeradwyo a ddylai fynd ar drywydd cyfleoedd newydd i greu incwm, a’r modd y dylent wneud hynny. Roedd y gwaith wedi’i seilio ar gyfweliadau, yn fewnol ac yn allanol, ac ar holiadur. Roedd yr adroddiad, oedd ynghlwm wrth y papurau y diwrnod hwnnw, wedi dod i'r casgliad bod yr Awdurdod yn cryfhau ei allu i fynd ar drywydd ffrydiau newydd o incwm ond heb gytuno ar egwyddorion i bennu lefel ei uchelgais.

Roedd Archwilio Cymru wedi darparu offeryn hunanwerthuso, ac wedi argymell bod yr Awdurdod yn defnyddio’r offeryn hwn i glustnodi ei gryfderau a’i wendidau ar hyn o bryd, a datblygu strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm, yn ogystal â phennu mesurau perfformiad CAMPUS a systemau llywodraethu priodol i sicrhau bod y monitro a’r craffu yn ddigonol i gyflwyno'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno fyddai’n deillio o'r hunanwerthuso. Roedd yr Awdurdod wedi cytuno i weithredu'r argymhelliad.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Matthew Brushett a Nick Selwyn i'r cyfarfod. Dechreuodd Mr Selwyn drwy egluro bod y gwaith hwn wedi’i wneud ar draws y tri Parc Cenedlaethol yng Nghymru, ac y byddai crynodeb yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd Mr Brushett bod defnyddio’r offeryn hunanwerthuso yn cael ei annog er mwyn helpu'r Awdurdod i glustnodi ei barodrwydd i dderbyn risg o ran symud i faes mwy masnachol mewn modd mwy ffurfiol.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld cydnabyddiaeth na fyddai pob gweithgaredd yn creu elw ac yn dymuno llongyfarch y swyddogion ar y cynnydd mewn incwm a godwyd yn ystod hinsawdd economaidd anodd. Nodwyd bod prif ffrwd incwm yr Awdurdod ar hyn o bryd yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag roedd hynny'n newid, ynghyd â’r cydbwysedd pwerau, a holwyd a oedd unrhyw ffynonellau cyllid oedd yn cael eu hystyried yn broblemus neu fyddai angen arferion cyfrifyddu gwahanol. Atebodd Mr Selwyn bod llythyr cylch gwaith yr Awdurdod gan Lywodraeth Cymru yn annog Awdurdodau i dyfu incwm, gan gydnabod bod cyllid y sector cyhoeddus yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mater i’r Awdurdodau unigol oedd pennu eu paramedrau eu hunain, gan gynnwys ystyriaethau moesegol a risgiau eraill. Byddai'n gofyn i'w gydweithwyr

archwilio ariannol ystyried a fyddai angen systemau gwahanol ar gyfer gweithgarwch newydd.

Hefyd roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'r rhestr wirio hunanwerthuso yn ddefnyddiol, ac awgrymwyd y gellid trafod hyn mewn gweithdy. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn cael ei drefnu, cyn i'r mater gael ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn y dyfodol ac wedyn gan yr Awdurdod.  Roeddent hefyd yn cwestiynu pa mor briodol yw creu cangen fasnachol o ystyried diffyg profiad codi arian ymhlith yr Aelodau. Atebodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod eisoes yn rhan o'r Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol oedd yn cyflawni'r rôl genedlaethol honno o godi arian.

Codwyd dau bwynt arall i gloi, sef bod yr iaith yn yr adroddiad Cymraeg yn fwy uniongyrchol na'r Saesneg o ran yr angen i'r Awdurdod amrywio ei incwm. Hefyd gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â chost yr Archwiliad. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod cost yr archwilio wedi'i godi gyda'r Archwilydd Ariannol yn y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol gan fod y ffi wedi codi, ond eto bod oedi cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio. Cytunodd Mr Selwyn i godi'r pwynt cyntaf gyda'i gydweithwyr.

**Nodwyd.**

**8. Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Drafft a'r Cynlluniau Cyflawni 2023/24-2025/27**

Dywedwyd bod Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau drafft yr Awdurdod 2023/24-26/27, yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn nodi Amcanion Llesiant a Datganiad yr Awdurdod; y camau fyddai'n cael eu cymryd i gyrraedd yr Amcanion hyn drwy ei weithgareddau creu lleoedd a chynlluniau cyflawni; a'r modd y byddai'n bodloni'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf. Roedd y cynllun hefyd yn ystyried llythyr cylch gwaith tymor llywodraeth Llywodraeth Cymru a'r cyd-destun polisi ehangach.

Er mwyn troi uchelgeisiau'r Awdurdod yn gamau gweithredu roedd set o Gynlluniau Cyflawni ar gyfer 2023/24-26/27 wedi'u datblygu. Roedd y cynlluniau hyn yn drawsbynciol eu natur, gyda gweithgareddau yn aml yn cefnogi un neu fwy o'r Amcanion Llesiant. Aelod o Dîm Rheoli yr Awdurdod sydd â'r cyfrifoldeb am gyflawni cynllun unigol drwy weithio gyda'r swyddogion ar draws yr Awdurdod i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni drwy ddulliau o gydweithredu.

Nodwyd yn y cyfarfod bod gwall wedi'i glustnodi yn y tabl cyllid ac yn rhai o'r cysylltiadau allanol oedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau drafft. Byddai'r gwallau hyn yn cael eu cywiro yn y fersiwn terfynol o'r Cynllun. Ar ôl ymgynghori â'r staff, byddai'r cynlluniau yn cael

eu cyflwyno gerbron cyfarfod o’r Awdurdod fis Gorffennaf i'w cymeradwyo, er y byddent yn parhau i esblygu.

Yn dilyn hyn cafwyd cyflwyniad byr gan Benaethiaid Adran yr Awdurdod ar y prif gynlluniau oedd yn ymwneud ag: Adfer Byd Natur; Datgarboneiddio; Addasu i’r Newid Hinsawdd; Iechyd, Lles a Mynediad; Cefnogi Twristiaeth Adfywiol drwy’r Economi Ymwelwyr; gan dynnu sylw at y prif gamau gweithredu yn y cynlluniau hyn a’r modd y byddai llwyddiant yn cael ei fesur. Nodwyd y byddai'r Cynlluniau oedd yn weddill oedd yn ymwneud â Llywodraethu a Phenderfynu; Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant; Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol, yn ategu’r dulliau newydd.

Llongyfarchodd yr Aelodau y swyddogion, ac yn arbennig y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth, am eu gwaith caled yn cynhyrchu'r cynlluniau, ac roeddent yn falch o nodi eu natur trawsbynciol a'r modd yr oeddent yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Awdurdod. Roeddent hefyd yn falch o glywed am y cyfathrebu mewnol da gan ei bod yn hollbwysig bod pob aelod o staff yn cyfranogi yn y cynlluniau. Gofynnodd yr Aelodau am i rywbeth gael ei ychwanegu at y cynlluniau ar werthuso a monitro, yn enwedig o ran y mesurau CAMPUS gyda ffocws blynyddol. Atebodd y Prif Weithredwr y byddai Tîm Rheoli yr Awdurdod a'r ddau Bwyllgor Adolygu yn bwysig o ran monitro, ac y byddai geiriad i amlygu hyn yn cael ei gynnwys yn y fersiwn terfynol o’r Cynlluniau.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y Cyfarfod rhwng 12.10pm a 12.20pm]

**9. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23**

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn ystod y flwyddyn gyfredol roedd yr Awdurdod wedi diwygio ei God Llywodraethu Corfforaethol ac felly roedd y datganiad wedi'i ddiwygio i amlygu’r newid hwn.

Roedd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol wedi adolygu’r datganiad drafft fis Mawrth 2023 ond gwahoddwyd yr Aelodau ymhellach i gyfrannu at a llywio cynnwys y ddogfen cyn i'r Awdurdod gytuno ar y datganiad fel Atodiad i'r Cyfrifon Blynyddol. Tan hynny, roedd y ddogfen yn dal i fod yn waith sydd ar y gweill gyda gwybodaeth ychwanegol eto i'w darparu.

Yn y cyfarfod, ymddiheurodd y Rheolwr Cyllid nad oedd y diagramau ar ail dudalen y ddogfen wedi eu hargraffu a bod gwall teipio yn y pennawd ar waelod tudalen 8. Ychwanegodd bod yr Adolygiad o Effeithiolrwydd ar dudalen 10 ac ymlaen yn seiliedig ar saith egwyddor Cod Llywodraethu

Corfforaethol CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth).

Gofynnodd yr Aelodau am i'r geiriad ar Iechyd a Diogelwch ar frig tudalen 172 gael ei adolygu i amlygu'r ffaith bod yr Awdurdod wedi derbyn Hysbysiad Gwella. Awgrymwyd hefyd y byddai'r ddogfen yn elwa o adolygu'r arddull i'w byrhau gan eu bod o'r farn bod perygl i'r negeseuon allweddol gael eu colli oherwydd bod y ddogfen mor drylwyr. Dywedodd y swyddogion y byddai angen ystyried hyn yn ofalus i sicrhau bod y ddogfen yn cadw ei phwrpas hanfodol, fodd bynnag cytunwyd y gellid edrych ar enghreifftiau o Ddatganiadau eraill wrth baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn nesaf.

**Nodwyd.**

[Datganodd y Cynghorydd B Price fuddiant personol yn yr eitem ganlynol]

**10. Darparu Tocynnau Tymor a Thaliadau Parcio Ceir**

Atgoffwyd yr Aelodau, yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Rhagfyr 2022, y penderfynwyd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried darparu tocynnau tymor a'r tâl a godir am barcio ym meysydd parcio yr Awdurdod yn y dyfodol. Ers hynny roedd y grŵp wedi cyfarfod deirgwaith, gan ystyried rôl y meysydd parcio yn y Parc Cenedlaethol a'r tâl a godir am barcio.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno datganiad polisi ar fesurau'r Awdurdod i reoli ei feysydd parcio, polisi oedd wedi'i gytuno gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a hefyd argymhelliad y dylai'r Awdurdod feincnodi'r tâl a godir am barcio fesul awr am y flwyddyn sydd i ddod yn erbyn y tâl a godir ym meysydd parcio arfordirol Cyngor Sir Penfro, a bod y cynnydd yn cael ei nodi yn yr adroddiad. Argymhellwyd hefyd y dylid adolygu'r taliadau meysydd parcio yn flynyddol, gydag adolygiad bob 3 blynedd o'r strwythur prisio.

Cytunodd yr Aelodau ei bod yn synhwyrol yn ôl pob golwg i gael yr un tariff ym mhob un o'r meysydd parcio arfordirol o gwmpas y sir ond cwestiynwyd a oedd goblygiadau codi prisiau ar hygyrchedd i'r Parc Cenedlaethol wedi'u hystyried a beth oedd y rhesymeg y tu ôl i godi prisiau, os nad oedd i adennill costau. Atebodd y swyddogion bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i wneud o ran y newidiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r prisiau tocynnau tymor, a bydd ymarferiad tebyg yn cael ei wneud fel rhan o unrhyw newid i Orchymyn Meysydd Parcio yr Awdurdod. Roeddent yn cydnabod bod y meysydd parcio yn gwneud elw, fodd bynnag nid oedd y prisiau wedi codi ers nifer o flynyddoedd, ac roedd yr Awdurdod yn cael ei annog i ystyried gwahanol ddulliau o ariannu (fel y trafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, a gofnodir

yng Nghofnod 7). Serch hynny, roedd yn gydbwysedd anodd, er bod cynigion eraill megis y lleoedd 30 munud am ddim a thocynnau tymor yn bodoli, a'r egwyddor o beidio â chodi tâl gyda'r hwyr a thu allan i'r tymor wedi'i chadw.

O ran y datganiad polisi, nodwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad ynddo at feincnodi â thaliadau Cyngor Sir Penfro, ac nad oedd datganiad ynglŷn â thocynnau tymor. Eglurodd Aelodau'r Grŵp nad oedd yr awgrym yn un o gydraddoldeb parhaol â phrisiau CSP, ond yn argymhelliad dim ond ar gyfer eleni. Nodwyd hefyd mai'r argymhelliad oedd y dylid adolygu'r strwythur prisio, sy'n cynnwys tocynnau tymor, bob 3 blynedd. Roedd yr Awdurdod wedi ystyried adroddiad ar Docynnau Tymor fis Rhagfyr 2022 ac ni chynigiwyd newid y tocynnau tymor yn y flwyddyn sydd i ddod, fodd bynnag byddai gofyn edrych ar hyn eto yn y dyfodol.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd**:
a) cytuno ar y datganiad polisi ar fesurau'r Awdurdod i reoli ei feysydd parcio fel y nodir yn yr adroddiad;
b) cynyddu'r tâl Talu ac Arddangos am barcio ceir, fel y nodir yn yr adroddiad, i gydweddu â'r tâl parcio a godir gan Gyngor Sir Penfro yn eu meysydd parcio arfordirol yn y tymor 2024/25;
c) cychwyn ar y broses o ddiwygio Gorchymyn Meysydd Parcio presennol yr Awdurdod; a
d) chytuno ar adolygiad blynyddol o daliadau meysydd parcio ac adolygiad bob 3 blynedd o'r strwythur prisio.

**11. Diweddariad ar Syndrom Dirgryniad Llaw Braich (HAVS)**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn ymweliad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fis Rhagfyr 2022, bod yr Awdurdod wedi derbyn Hysbysiad Gwella. Roedd hwn felly wedi bod yn faes o ffocws sylweddol i nifer o'r staff ac roedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu. Roedd y cynllun hwn wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac roeddent wedi cadarnhau bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cydymffurfio'n llawn â'r Hysbysiad Gwella a bod ei ddulliau rheoli yn golygu bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rheoliadau Rheoli Dirgryniad yn y Gweithle 2005.

Dywedwyd bod y newidiadau wedi effeithio ar y ffyrdd o weithio, gyda mesurau wedi'u rhoi mewn lle i asesu'r offer a'r staff fyddai'n sicrhau na fyddai unrhyw unigolyn yn agored i lefelau uwch o ddirgryniad na'r terfynau dyddiol. Roedd offer newydd wedi'i brynu, gan gynnwys technoleg a reolir o bell, a threfnwyd hyfforddiant sylweddol i'r holl staff perthnasol.

Byddai adroddiad ar HAVS yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac, er bod cynnydd yn

parhau i gael ei fonitro, nodwyd y byddai adolygiad manwl yn cael ei gynnal ar ddiwedd y tymor torri i ystyried effeithiolrwydd y dull presennol o weithredu.

Canmolodd yr Aelodau y swyddogion am fynd ati ar fyrder i gymryd camau gweithredu, a'r cynnydd a wnaed. Roeddent yn gobeithio y gellid rhannu'r gwersi a ddysgwyd gyda sefydliadau eraill, ac atebodd y swyddogion eu bod yn hapus i wneud hynny.

**Nodwyd.**

**12. Diweddariad ar Draeth Trefdraeth**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod fis Chwefror 2023, bod y gwaith o brynu Traeth Trefdraeth wedi'i gwblhau a bod arwyddion wedi'u codi yn nodi y byddai mynediad i gerbydau i'r traeth yn gyfyngedig i'r gwasanaethau brys a'r rhai sydd angen mynediad hanfodol. Cafwyd llawer o adborth cadarnhaol a lefel uchel o gydymffurfio â'r trefniadau newydd. Nid yw'n syndod bod rhai sylwadau negyddol hefyd wedi dod i law, yn enwedig o ran bod y traeth yn hygyrch i'r rhai sydd ag anableddau. Cafwyd cyngor ar y mater hwn gan Swyddog Mynediad Cyngor Sir Penfro ac roedd adroddiad wedi'i gomisiynu gan ymgynghorydd arbenigol. Felly byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol, a byddai swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhawyd bod gweithredu'r cynllun cyfathrebu yn mynd rhagddo, a bod y swyddogion hefyd yn ystyried ychwanegu deunydd esboniadaol yn y maes parcio. Roedd cais hefyd wedi'i wneud gan Gyngor Cymuned Nanhyfer i gyfeirio at y safle fel 'Traeth Mawr' a bod yr arwydd wedi'i newid i amlygu hyn.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2023 heb eu diwygio. |